# LC1424

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Gorchymyn Niwsansau Statudol (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007

Gwneir y Gorchymyn hwn yn unol ag adran 80(8B) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, sy'n rhoi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, o ran Cymru, y swyddogaeth o ddynodi camp yn "gamp berthnasol" at ddibenion adran 80(8A) o'r Ddeddf honno. Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn rhoi effaith i fân ddiwygiadau i Orchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/2797 (Cy. 236) (C. 93)).

## Standing Order 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol o dan Reol Sefydlog 11.7.

Yn erthygl 3(e) o'r testun Cymraeg, mae'r geiriau 'rhodder y geiriau "erthygl 2 o Orchymyn Niwsansau Statudol (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007 a'r Atodlen i'r Gorchymyn hwnnw"' yn ymddangos cyn ac ar ôl y geiriau y maent i fod i'w ddisodli. Byddai'n well pe byddent yn dilyn y geiriau sy'n cael eu disodli fel eu bod yn ymddangos yn yr un drefn â'r testun Saesneg. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mân wall drafftio neu deipograffyddol yw hwn sy'n addas i'w gywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Mae'r Gorchymyn yn cynnwys nifer helaeth o fân wallau teipograffyddol, fel y gair 'i' yn y testun Cymraeg yn cael ei newid i'r 'I' Saesneg drwy ddefnyddio 'Autocorrect'. Hysbyswyd y cyfreithiwr a ddrafftiodd y Gorchymyn am y pwyntiau hyn, sy'n addas i'w cywiro wrth ei gyhoeddi.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 16 Ionawr 2007